Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiadau Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Cyrff Llywodraethu Sefydliadau a Reoleiddir

Ebrill 2017

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yng Nghylchlythyr W16/38HE: Ymgynghoriad ar ddatganiadau sicrwydd blynyddol cyrff llywodraethu yn gysylltiedig ag ansawdd, gofynnir i Gyrff Llywodraethu Sefydliadau a Reoleiddir gydymffurfio â'r datganiadau canlynol yn flynyddol.

1 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei roi yn ei le a'i weithredu fel sy'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.

2 Mae'r methodolegau a ddefnyddir fel sail i wella profiad academaidd y myfyrwyr a chanlyniadau'r myfyrwyr, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gadarn a phriodol.

3 a) Ar gyfer darparwyr sydd â phwerau dyfarnu gradd:
Mae safonau'r dyfarniadau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu pennu a'u cynnal yn briodol.

3 b) Ar gyfer darparwyr heb bwerau dyfarnu gradd:
Mae safonau'r dyfarniadau rydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu cynnal yn briodol.

4 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y trafod blynyddol rhwng y sefydliad ac undeb y myfyrwyr neu'r corff cyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi yn eu lle a'u gweithredu, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.

5 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o gytundeb y berthynas rhwng y sefydliad ac undeb y myfyrwyr neu'r corff cyfatebol, a chopi o siarter y myfyrwyr, ac mae'r ddau wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.